**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

5 Mehefin 2023

Bridwyr Hadau Indrawn Porthiant

Annwyl Lesley,

Ysgrifennaf fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i dynnu eich sylw at y llythyr a ddaeth i law gan gynrychiolydd bridwyr hadau indrawn porthiant.

Mae'r llythyr yn codi pryderon am yr effaith ar ffermwyr Cymru yn sgil newid i'r trefniadau mewnforio ar gyfer hadau indrawn porthiant, newidiadau a fydd yn dod i rym ddiwedd 2023. Nodaf hefyd fod y mater hwn wedi'i godi gyda'i aelodau gan undeb ffermio NFU Cymru.

Bydd llythyr Dr Julian Little yn cael ei nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i'r Pwyllgor am safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, gan gynnwys eich ymateb i'r atebion amgen arfaethedig a amlinellir yn y llythyr, ac a ydych wedi cael trafodaethau â'r Adran Bwyd a Materion Gwledig ynglŷn â'r mater.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**